



CYNGOR BRO MORGANNWG
CYNLLUN GWELLA ac AMCANION LLESIANT Rhan I
2019-20

CRYNODEB CYHOEDDUS EBRILL 2019

Cymunedau
Cryf â
Dyfodol
Disglair




Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac y meant yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol

Amcan Gwella 1: Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol

Mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth allweddol. Bydd gweithio tuag at yr amcan hwn yn helpu i leihau anghydraddoldeb a chyfrannu tuag at gymunedau iachach, mwy cyfartal, sy'n ffyniannus ac yn gydlynus a lle mae dinasyddion yn mwynhau disgwyliad einioes iach a chyfleoedd mewn bywyd waeth lle maent yn byw.

Amcan Gwella 2: Darparu cartrefi parchus a chymunedau diogel

Tai sydd wrth wraidd ein cymunedau; dyma beth sy'n gyrru'r galw am wasanaethau, siopau a chyfleusterau lleol ac yn cyfrannu at gymunedau ffyniannus, iachach a mwy cydlynus. Trwy ganoli ar yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gall trigolion gael tai o safon sy'n addas a fforddiadwy. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ofalu bod trigolion ac ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhan o'r gymuned leol.



Ein heriau i gyflawni'r Amcanion hyn:

- **Effaith Credyd Cynhwysol ar iechyd tenantiaid a'u harian a'u gallu i gynnal tenantiaethau, cael cyfle am waith a thalu biliau. Ein her fwyaf yw gweld pa ffordd orau i ddefnyddio ein hadnoddau a gweithio gyda'n gilydd i reoli effaith cymdeithasol diwygio lles yn well.**
- Ansicrwydd am ddyfodol y Gronfa Ddatblygu Gwledig wedi Brexit a allai fygwth hyfywedd prosiectau datblygu gwledig yn y dyfodol sydd â'r nod o wella gwasanaethau a lleihau tlodi gwledig.
- Mae cymhlethdodau ynghlwm ag uno cyllido presennol Llywodraeth Cymru yn un ffrwd gyllido. Bydd hyn yn gosod her o ran dwyn timau ynghyd i integreiddio gwasanaethau yn well, a sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cwrdd â'r blaenoriaethau newydd sy'n gysylltiedig â'r meini prawf cyllido ehangach.
- Pwysau ar gyllidebau cysylltiedig â chyfnod cynnal cyson SATC a'r gwaith a ragwelir o adnewyddu ceginau, bwyleri ac ystafell ymolchi dros amser.
- Rhwystrau cysylltiedig â datblygu tai newydd yn y Fro oherwydd nad oes digon o dir addas ar gael.
- Mwy o bwysau ar lety dros dro o ganlyniad i fwy o bobl yn dod yn ddigartref.
- Y gallu i fynd i'r afael â phwnc tai gwag ym Mro Morgannwg yn cael ei lesteirio am nad oes digon o adnoddau i sicrhau eu hail-ddefnyddio.
- **Y gallu i gyflwyno gwasanaethau cynaliadwy dan bortffolio Bro Ddiogelach wedi ei lesteirio gan natur tymor-byr cyllido gan Lywodraeth Cymru o flwyddyn i flwyddyn. Hefyd, mae cynnydd mewn cam-drin a thrais domestig yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein hadnoddau.**

Yn ystod 2019/20 byddwn yn gwneud y canlynol:



Gwella mynediad at wasanaethau trwy gryfhau sgiliau digidol trigolion trwy gyflwyno Strategaeth Ddigidol. Parhau i weithio gyda phartneriaid trwy ein cynllun 'Cael y Fro Arlein' i annog rhyngweithio a gwella mwy ar fynediad a sgiliau i grwpiau sydd wedi eu hallgau yn ddigidol.



Cod ymwybyddiaeth ymysg staff, partneriaid a thenantiaid o Ddiwygiadau Lles a Chredyd Cynhwysol ac ar yr un pryd, lliniaru effeithiau'r newidiadau. Byddwn yn parhau i gydgydio a chefnogi Gwasanaethau/Mentrau Cyngor Ariannol i helpu ein tenantiaid gyda'r trosi i Gredyd Cynhwysol a lleihau ôl-ddyledion rhent.



Cefnogi cymunedau i gael mynediad at adnoddau a datblygu eu gallu i wella a rhedeg asedau cymunedol.

Adolygu a gweithredu newidiadau cysylltiedig â'r trefniadau Cyllido Hyblyg newydd (gan gynnwys gwneud cysylltiadau rhwng Cronfeydd Tai a Phlant a Chymunedau) a'r Gronfa Fuddsoddi Adfywio wedi'i Thargedu. Bydd hyn yn canoli mwy ar integreiddio prosiectau/gwasanaethau i dargedu tlodi yn well.

Parhau i gynnal ein stoc tai i Safon Ansawdd Tai Cymru a nodi cyfleoedd am fwy o dai cyngor trwy'r Rhaglen Ddatblygu Tai Cyngor a mabwysiadu Strategaeth Datblygu Tai newydd.



Dal i ganolbwyntio ar wella rheolaeth eiddo gwag trwy leihau'r amser mae'n gymryd i ail-osod eiddo i'r sawl sydd mewn angen. Parhau i weithio gyda pherchenogion tai a landlordiaid i wella eu tai preifat trwy ddarparu cynhyrchion benthyca. Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu nifer y cartrefi cynaliadwy, fforddiadwy i helpu pobl i mewn i'r farchnad eiddo.



Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu llety a gwasanaethau cefnogi addas i grwpiau arbennig o fregus, gan gynnwys canfod atebion cartrefu i gwrdd ag anghenion cymuned y Teithwyr. Byddwn yn gweithio'n rhanbarthol gyda phartneriaid i ddatblygu Strategaeth Tai gyda Gofal a Chefnogaeth i Bobl Hŷn er mwyn ei gwneud yn haws i fyw yn annibynnol.



Cefnogi'r sawl sy'n cael eu targedu gan fasnachwyr heb awdurdod, sgamiau a throseddau ar drothwy'r drws trwy roi cyngor defnyddwyr i drigolion bregus a chymryd camau gorfodi wedi eu targedu ar ddigwyddiadau a allai ddenu 'masnachwyr anonest'. Gweithio gyda'n partneriaid i gyflwyno agwedd fwy strategol, tymor-hir at fynd i'r afael a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys cyflwyno hyfforddiant cenedlaethol a gweithredu strategaeth ranbarthol. Gwneud ein cymuned yn fwy diogel trwy barhau i atal a thrin troseddau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys mabwysiadu agweddau cyfiawnder adferol i bobl ifanc, a datblygu a hyrwyddo Strategaeth Diogelwch Cymunedol newydd. Gwella ein ffordd o rannu gwybodaeth a monitro Plant sy'n Derbyn Gofal yn y System Cyfiawnder Ieuentid.




Mae gan Fro Morgannwg economi gref a chynaliadwy a diogelir yr amgylchedd lleol i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Amcan Gwella 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth

Trwy ganolbwyntio ar raglen helaeth o brosiectau adfywio ledled y Fro, gallwn adeiladu economi gref a chynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i gryfhau ein heconomi leol trwy wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer creu gwaith am well dyfodol.

Amcan Gwella 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac amddiffyn ein hamgylchedd.

Yr ydym yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar ein hamgylchedd unigryw, ac am ei amddiffyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac ar yr un pryd fwynhau ei harddwch a'i amrywiaeth. Mae mabwysiadu agwedd fwy cynaliadwy at ddatblygu yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau o dir at ddibenion tai, cyflogaeth, adwerthu, twristiaeth, cludiant, mwynau, gwastraff a'r gymuned yn awr ac yn y dyfodol.



Ein heriau i gyflwyno'r amcanion hyn:

- Sicrhau y parheir i hyrwyddo buddiannau Bro Morgannwg yn effeithiol o ran gwneud y mwyaf o dwf economaidd, mewnfuddsoddi a chyfleoedd am gyflogaeth trwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a Pharth Menter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan.
- Parhad o'r ansicrwydd ynghylch Brexit yn effeithio ar ein gallu i sicrhau cyllid a chyflwyno prosiectau adfywio allweddol sy'n adlewyrchu anghenion lleol ac yn eu hateb.
- Ymdrin â'r heriau sy'n wynebu'r sector adwerthu a'r effaith gaiff hyn ar ein canolfannau siopa lleol o ran unedau adwerthu gwag a llai o gwsmeriaid yn dod yno.
- Cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru i fynd ati i hyrwyddo a gwella Teithio Llesol mewn cyfnod pan fo cyllidebau yn crebachu.
- Adnoddau cyfyngedig i'w buddsoddi i gynnal ein priffyrdd sy'n dirywio.
- **Gofynion deddfwriaethol Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn parhau i roi mwy o bwysau ar ein gwasanaethau a'n hadnoddau i ymdrin ag ardaloedd sy'n debyg o ddiodef o lifogydd. Bydd gwneud i ffwrdd â'r grant amgylcheddol unigol hefyd yn gryn her i fwrw ymlaen â'n blaenoriaethau bioamrywiaeth.**
- Mae datblygiadau newydd yn parhau i roi pwysau ar ein cyllidebau gwastraff a chludiant, ac y mae'r twf cysylltiedig mewn traffig yn enwedig o Ddwyrain y Fro yn arwain at fwy o lygredd.
- **Mae llai o ddibyniaeth ar gerbydau disel a chamau i leihau carbon yn ein stoc tai bresennol a newydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein cyllidebau. Mae ein gallu i gwrdd â'n hymrwymiaidau lleihau carbon dan gynllun Effeithlonrwydd Ynni LIC yr un mor heriol yn wyneb costau ynni uwch a chyllidebau sy'n crebachu.**

Yn ystod 2019/20 byddwn yn gwneud y canlynol:




Gweithio mewn partneriaeth trwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (cydweithrediad rhwng 10 awdurdod lleol) i ddefnyddio'r Cynllun datblygu Lleol a datblygiad Parth Menter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan i wneud y mwyaf o dwf economaidd a chyfleoedd am gyflogaeth.



Bwrw ymlaen â phrosiectau adnewyddu ledled y Fro i dynnu buddsoddiad i mewn a chreu swyddi newydd, sydd yn cynnwys dal ati i gyflwyno prosiect Porth ac Ardal Arloesedd y Barri a Phrosiect Adfywio Porth Canol Tref y Barri.



Cryfhau canol ein trefi trwy weithredu ein Fframwaith Canol Trefi ac ymchwilio i ddatblygu Ardal Gwella Busnes. Gwella twristiaeth trwy gynyddu nifer y digwyddiadau arloesol a chynaliadwy sydd yn cefnogi'r economi leol ac yn sefydlu'r Fro fel cyrchfan i bobl trwy'r flwyddyn.



Cyflwyno cynlluniau i wella rhwydweithiau bysus, beicio a cherdded ar hyd y Fro a pharhau i hyrwyddo Mapiau Teithio Llesol i drigolion er mwyn sicrhau teithio diogel ac effeithlon. Bwrw ymlaen ag astudiaethau dichonolrwydd o ran gwelliannau bysus, beicio a cherdded yng nghyswllt Dinas Powys, Morglawdd Bae Caerdydd a datblygu cyfleuster Parcio a Theithio ym Mharc Cosmeston.

Parhau i wneud y mwyaf o arian A106 i wneud gwelliannau i ardaloedd lleol gan gynnwys Parc Sglefrfyreddio newydd ym Maes Hamdden a'r Prosiect Man Agored yn Heol Dingle ym Mhenarth.



Cyflawni eich Cynllun Ail-wynebu Priffyrdd a'n menter Llenwi Tyllau Mawr er mwyn sicrhau bod ein rhwydwaith priffyrdd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda, a gweithredu Polisi Parcio diwygiedig yn y Fro. Bwrw ymlaen â gwelliannau cysylltiedig â Five Mile Lane a chyflwyno cynlluniau diogelwch trafndiaeth y ffyrdd.

Cyflwyno rhaglen o brosiectau bioamrywiaeth fel y'i hamlinellwyd yn y Blaengynllun Bioamrywiaeth a monitro newidiadau yn nyfroedd ac erydu'r arfordir yn unol â Chynllun Rheoli'r Traethlin a chwblhau Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanmaes.

Defnyddio ein Cynllun Datblygu Lleol (sydd yn gosod allan bolisiau cynllunio lleol a'r modd mae tir yn cael ei ddefnyddio) a'i Ganllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig (canllawiau manylach a mwy penodol) i gefnogi penderfyniadau cynllunio a gwneud y defnydd gorau o dir ac asedau.

Ail-fodelu ein seilwaith rheoli gwastraff a gweithredu Strategaeth Lleihau Gwastraff er mwyn cyrraedd ein targed ailgylchu cenedlaethol o 64%.

Lleihau ein hól troed carbon trwy leihau allyriadau wrth i ni drosi goleuadau strydoedd preswyl i LED ac adolygu cerbydau ein fflyd.




Mae gan holl ddinasyddion Bro Morgannwg gyfleoedd i gyrraedd eu llawn botensial

Amcan Gwella 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol

Ein huchelgais yw sicrhau bod deilliannau addysgol y rhai gorau yng Nghymru ac yn cyfateb i rai'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn Lloegr sydd â phroffiliau cymdeithasol-economaidd tebyg. Felly, rydym wedi blaenoriaethu'r angen i godi safonau cyrhaeddiad ar bob lefel.

Amcan Gwella 6: Rhoi gwerth ar ddiwylliant ac amrywiaeth

Yr ydym yn parchu ac yn rhoi gwerth ar amrywiaeth yn ein cymunedau ac yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a'r iaith Gymraeg. Yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd annog pobl o bob oed i fwynhau ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw.



Ein heriau i gyflwyno'r amcanion hyn:

- Mae codi lefelau cyrhaeddiad mewn pob ysgol yn heriol gan mai'r Fro yw'r awdurdod sy'n derbyn y lleiaf o gyllid y disgybl yng Nghymru.
- **Mae gwella perfformiad pob grŵp bregus, yn enwedig y sawl sydd â'r hawl i Brydau Ysgol am Ddim, yn heriol ar adeg pan fod niferoedd disgyblion yn dal i godi ac adnoddau'n lleihau.**
- Gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, gan ganolbwyntio'n arbennig ar adawyr Blwyddyn 13.
- **Mae angen i ni wella lefelau presenoldeb yn enwedig mewn ysgolion cynradd.**
- Diffyg gallu ac adnoddau digonol i gwrdd ag anghenion cynyddol gymhleth nifer mwy o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu a gafodd Brofiadau Andwyol mewn Plentynod (PAP).
- Diffyg gallu ac adnoddau digonol i gwrdd â gofynion estynedig y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) newydd.
- Sicrhau bod gallu yno i gyflwyno rhaglen gyfalaf uchelgeisiol i wella ein hysgolion a bwrw ymlaen â phrosiectau cysylltiedig â Band B Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.
- Mae angen i ni wella ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i'n galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwell gwybodaeth am gyflwyno gwasanaethau.
- Mae cryn oblygiadau ariannol yn gysylltiedig ag ateb gofynion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, yn enwedig mewn perthynas â darparu cefnogaeth arbenigol a/neu drosiannol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Adnoddau cyfyngedig i gyflwyno Strategaeth Celfyddydau'r Fro Strategaeth 'Bro Uchelgeisiol a Diwyllianol Fywio 2018-22' yn effeithiol.**

Yn ystod 2019/20 byddwn yn gwneud y canlynol:



Dal Cyd-Wasanaeth Addysg Consortiwm Canol y De i gyfrif o ran cyflwyno ei Gynllun Busnes am 2019/20 a sicrhau bod y deilliannau yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad a llesiant yr holl ddysgwyr ym Mro Morgannwg.



Gwella adrodd am a monitro perfformiad plant bregus er mwyn rhoi mwy o wybodaeth a thargeddu cefnogaeth i wella lefelau cyrhaeddiad.

Parhau i ddefnyddio cyllid Ewropeaidd a gweithio gyda'n partneriaid i gynyddu nifer y bobl ifanc 11-24 oed sy'n mynd i waith a hyfforddiant.

Cysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc ynghylch datblygu Strategaeth Ieuenctid Cenedlaethol a gwreiddio'r model newydd am ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid ledled y Fro.

Parhau i weithio gydag ysgolion i ostwng absenoldeb a gwaharddiadau disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.



Gweithio ar y cyd gyda'n partneriaid iechyd i ddatblygu gwasanaethau i wella cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl cymhleth.

Bwrw ymlaen a gwaith cysylltiedig ag ateb gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg sydd yn cynnwys rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar waith.



Parhau i wella cyfleusterau addysg a bwrw ymlaen â phob prosiect a gymeradwywyd ar gyfer eu cyllido dan Fand B rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif sydd yn cynnwys prosiect 'Cymunedau Dysgu Uwchradd y Barri' a 'Chanolfan Dysgu a Llesiant y Barri'. Mae hyn hefyd yn cynnwys cwblhau'r ymgynghoriad a'r achos busnes dros 'Ysgol y Glannau' yn y Barri a Dewi Sant yn Nhregolwyn.



Gwella ein data monitro cydraddoldeb a safonau asesiadau effaith i wella mynediad at wasanaethau i'n holl gwsmeriaid.

Cyflwyno ein cynllun gweithredu Stonewall er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn fan gwaith sydd yn cynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywedol.



Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg trwy weithredu ein Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'r Safonau Iaith Gymraeg, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Fframwaith 'Mwy na Geiriau' y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gweithredu'r Strategaeth Celfyddydau newydd i ddatblygu a chreu agweddau newydd tuag at gefnogi'r celfyddydau yn y Fro.

Parhau i weithio gyda phartneriaid cymunedol i gyflwyno gwasanaeth llyfrgell bywiog ac amrywiol a pharhau i hyrwyddo system fynediad hunanwasanaeth y Gwasanaeth, 'Open+' i gynyddu defnydd ac ymgysylltu.

Hyrwyddo mynediad a llythrennedd digidol gyda phwyslais arbennig ar ardaloedd difreintiedig a grwpiau anodd eu cyrraedd.




Mae trigolion Bro Morgannwg yn byw bywydau iach ac y mae pobl fregus yn cael eu gwarchod a'u cefnogi

Amcan Gwella 7: Annog a hyrwyddo dulliau bywiog ac iach o fyw

Mae atal ac ymyriad cynnar yn rhan annatod o wella llesiant pobl a hyrwyddo iechyd da. Mae angen mwy o bwyslais hefyd ar annog cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol i gynnal dulliau iach o fyw a gwella ansawdd bywyd.

Amcan Gwella 8: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac amddiffyn ein hamgylchedd

Yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a diogelu ein trigolion mwyaf bregus. Trwy weithio gyda phartneriaid gallwn uno a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn rhoi anghenion y cwsmer yn gyntaf a gwneud gwahaniaeth sylweddol i lesiant ein trigolion, teuluoedd a gofaliwyr mwyaf bregus.



Ein heriau i gyflwyno'r amcanion hyn:

- **Gallu i gwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau i gefnogi plan a theuluoedd.**
- **Sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau a chyfleusterau hamdden ar hyd a lled Bro Morgannwg gan gynnwys cwrdd â'n hoblygiadau teithio llesol ar adeg pan fo cyllidebau yn parhau i grebachu.**
- Cyflwyno rhaglen chwarae uchelgeisiol a chynhwysfawr sydd yn ymwneud yn effeithiol â 'grwpiau anodd eu cyrraedd'.
- Mae lleihau cyllidebau a mwy o alw am Wasanaethau Cymdeithasol yn cael effaith ar ein gallu i gwrdd yn llawn â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- Mae cynnal lefelau o gyflwyno gwasanaethau a rheoli disgwyliadau ar yr un pryd yn gynyddol heriol, yn enwedig pan fo newidiadau demograffig lleol yn cael effaith sylweddol.
- Erys integreiddio gwasanaethau oedolion a gofal cymdeithasol ymhellach yn heriol mewn hinsawdd o adnoddau sy'n lleihau. Hefyd, mae heriau yn gysylltiedig â datblygu agweddau llyfnach at gyflwyno gwasanaethau ataliol yn unol â'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Mae'r gallu i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn parhau yn gadarn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymhwyso'n gyson.
- Mae lleihau oedi cyn trosglwyddo gofal ymhellach yn her o hyd, gyda phwysau ar y gyllideb yn cael effaith ar ein perfformiad.
- Mae mynd ati i ymateb yn effeithiol i ddiogelu ein trigolion bregus yn dod yn gynyddol heriol.

Yn ystod 2019/20 byddwn yn gwneud y canlynol:



Cefnogi cyflwyno cynllun peilot Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, adolygu'r ddarpariaeth Gwybodaeth a Chefnogaeth i Deuluoedd ac ymestyn y meini prawf oedran i Blant a Phobl Ifanc gydag anabledau neu anghenion ychwanegol.



Gweithredu Rhwydwaith Integredig a Mapiau teithio Llesol fel y gall trigolion ac ymwelwyr deithio yn effeithlon ac yn ddiogel. Gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau trwy ein cyfleusterau hamdden, cymunedol a pharciau i wella llesiant trigolion.



Cyfrannu at agenda Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy hyrwyddo ac annog bwyta'n iach a dulliau iach o fyw yn ein gwasanaethau.

Ennill statws Baner Werdd i 7 parc fel nod rhagoriaeth, i ddangos mwynderau da ac ymwneud cymunedol mewn parciau. Parhau ein gwaith gyda'n partneriaid i atal a lleihau camddefnydd o sylweddau a'r niwed cysylltiedig trwy gyflwyno Strategaeth Gomisiynu Camddefnydd Sylweddau Caerdydd a'r Fro.



Parhau i weithio tuag at gydymffurfio a gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel a ganlyn: gweithredu cynlluniau asesu, gofal a chefnogi newydd ar gyfer gweithio gyda phlant a'u teuluoedd; cynyddu'r defnydd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth/Ilinell Gynghori Teuluoedd yn Gyntaf fel un pwynt cyswllt i'r gwasanaeth; gweithredu contract ar y cyd am Gartrefi Gofal Preswyl/Nyrsio gydag Iechyd a Chyngor Caerdydd a chefnogi datblygiad gwasanaethau ataliol integredig i hyrwyddo byw yn annibynnol yn well.

Ymateb i'r heriau demograffig sy'n cael effaith ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy gynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys: ehangu mwy ar y Cynllun Lleoli Oedolion; gweithredu Strategaeth Gomisiynu Anabled Dysgu ar y cyd; a monitro a gwella'r gwasanaeth gwybodaeth, Cyngor a Chymorth terfynol i wneud y defnydd gorau o ddewisiadau ataliol.



Integreiddio mwy ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd trwy wneud y canlynol: bwrw ymlaen â gwaith prosiect rhwng y cenedlaethau gydag ysgolion lleol a lleoliadau gofal preswyl; creu amgylchedd 'Dementia Gyfeillgar' yn Nhŷ Dewi Sant; gweithredu protocol rhanbarthol i gefnogi proses drosiannol ar draws yr holl Wasanaethau oedolion; gweithredu'r Gwasanaeth Ymweld Nos a Mwy 'Dewch â Mi Adref'; a datblygu model integredig am y Gwasanaeth Gofal Tymor Hir a Thîm Nyrsus Asesu yn Nhŷ Jenner.

Parhau i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu agwedd gyfun at gyflwyno gwasanaethau ataliol gan gynnwys: gweithredu Contractau ar y Cyd yng nghyswllt cartrefi Nyrsio a Gofal Preswyl; gwreiddio System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SGGCC) ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a bwrw ymlaen gyda thrafodaethau i redeg y system ar lefel ranbarthol.

Monitro cydymffurfio â'r Polisi Diogelu corfforaethol a gweithredu argymhellion yr adolygiad archwilio mewnol.

Gwerthuso ac adolygu'r defnydd o dechnoleg cymorth er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd am annibyniaeth.



Gweithio tuag at ddiogelu ein trigolion bregus trwy weithgareddau sydd yn cynnwys: adolygiad Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant; cefnogi'r adolygiad cenedlaethol o Weithdrefnau Amddiffyn Plant ac oedolion; cwblhau rhaglen archwilio bwyd mewn eiddo masnachol lle mae pobl fregus yn bresennol; ymyriad iechyd a diogelwch mewn cartrefi gofal; monitro clefydau trosglwyddadwy mewn ysgolion; gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Strategaeth Llety gyda Gofal ac ehangu ein Gwasanaeth Lleoli Oedolion i alluogi pobl hŷn i aros yn annibynnol cyhyd ag sydd modd.


Cynllunio Integredig yw'r ffactor allweddol i lwyddo ...

Mae'n galluogi cyflwyno Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol a'n Hamcanion Gwella (Amcanion Llesiant) a chyfrannu ar yr un pryd i gwrdd â'r Amcanion Llesiant a'r pum ffordd o weithio. Mae'n golygu mabwysiadu agwedd integredig at reoli risg, rheoli asedau, cynllunio'r gweithlu, rheoli perfformiad a rheoli gwybodaeth.

Y ffordd yr ydym yn gweithio

Mae pob agwedd ar yr hyn rydym yn ei wneud yn seiliedig ar ein pum ffordd o weithio.

- INTEGRIDDIO
- CYDWEITHREDU
- YMWNEUD
- ATAL
- TYMOR HIR TERM



Heriau i gyflwyno ein blaenoriaethau cynllunio integredig:

Yn ystod 2017/18 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau'r adnoddau a'r gallu priodol i gyflwyno lefel y newid trawsnewidiol fydd ei angen fel rhan o'r Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau.
- Mae gwneud y mwyaf o gyfleoedd cynhyrchu incwm yn her o hyd yng ngoleuni'r galw am wasanaethau a'r angen i wneud mwy o arbedion effeithiolrwydd. Mae angen hefyd gofalu ein bod yn datblygu agwedd fwy strategol a masnachol at reoli contractau a rheoli contractwyr a chyflenwyr yn effeithiol er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd cynhyrchu incwm a'r arbedion posib a ddaw yn sgil hyn.
- Mae angen parhau i adolygu'r defnydd o'n hasedau, ceisio cyfleoedd arloesol i'w defnyddio yn fwy effeithlon a sicrhau eu bod yn dal i gydymffurfio â deddfwriaeth.
- Mae angen gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth trwy agwedd sy'n canoli ar y digidol i gwrdd orau ag anghenion ein cwsmeriaid heb greu rhaniad digidol.
- Mae angen parhau i ymchwilio i gyfleoedd cydweithio a gwneud y mwyaf ohonynt mewn gwasanaethau a rennir a fydd o fudd i'r Cyngor yn unol â'r Strategaeth Ail-lunio.
- Rhaid dal i ganolbwyntio ar reoli absenoldeb ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.
- Mae angen cryfhau cynllunio olyniaeth ar draws holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynyddu gwytnwch yn unol â Strategaeth Ail-lunio'r Cyngor a'n Blaenoriaethau Llesiant cenedlaethol.
- Mae angen parhau i gefnogi a datblygu ein staff gyda'r sgiliau cywir i ymateb yn effeithiol i'r ffyrdd newydd o weithio a'n hymrwymiaadau deddfwriaethol.



- Bwrw ymlaen â Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor a dwyn prosiectau cyfnod 4 ymlaen fel y'u nodwyd gan fwrdd rhaglenni'r Cyngor. Datblygu cynigion ar gyfer cyfnodau 5 a 6 y rhaglen.
- Gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau bod y gefnogaeth, hyfforddiant a'r adnoddau priodol ar gael i wireddu newid trawsnewidiol.
- Parhau i ddatblygu ffrydiau gwaith prosiect corfforaethol yng nghyswllt Cyngorau Tref a Chymuned (o ran y rôl y gallant chwarae mewn rheoli asedau cymunedol a chyflwyno gwasanaethau), Rheoli Galw (i edrych ar y modd yr ydym yn cynllunio ac yn rheoli cyflwyno gwasanaethau at y dyfodol), ac Effeithlonrwydd Gwario (i edrych ar wneud y mwyaf o gyllid grantiau).
- Cyflwyno Strategaeth Ddigidol y Cyngor, 'Y Fro Ddigidol' gan ganoli'n arbennig ar wasanaethau a ddyluniwyd o gwmpas y dinesydd er mwyn gofalu bod eu hanghenion yn cael eu hateb a bod y gwasanaethau yn cael eu cyflwyno yn fwyaf effeithlon.
- Parhau i fwrw ymlaen â gwaith ar Gynhyrchu Incwm a Chyfleoedd Masnachol i nodi arbedion yn unol â'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau.
- Parhau i adolygu swyddfeydd ac eiddo heb fod yn swyddfeydd, rheoli cyfleusterau ac adeiladau corfforaethol fel rhan o gyfnod nesaf y prosiect Gofod i wella effeithlonrwydd yn y modd mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg a chyflwyno arbedion ariannol.
- Ymchwilio i fwy o gyfleoedd am Drosglwyddo Asedau Cymunedol a hyrwyddo hyn yn unol â model diwygiedig TAC.
- Parhau i wella rheoli cydymffurfio yng nghyswllt ein stoc adeiladau corfforaethol, gan gynnwys cadw data cydymffurfio cyfoes.
- Ymchwilio i gyfleoedd cydweithio sy'n ymddangos o ran gwasanaethau priodol y Cyngor.
- Parhau i ofalu bod gweithwyr yn cymryd rhan weithredol a bod ganddynt lais mewn llunio dyfodol gwasanaethau'r Cyngor.
- Adolygu, gwella a chyflwyno ein Cynllun Cynllunio Olyniaeth a Rheoli Doniau a chefnogi pob gwasanaeth i gryfhau trefniadau rheoli presenoldeb i leihau lefelau absenoldeb a gwneud y gwasanaeth yn fwy gwydn i gwrdd â heriau trawsnewid y gwasanaeth.
- Lansio Fframweithiau Cymhwysedd Craidd Gweithwyr a Chymhwysedd Rheolwyr i helpu i adnabod bylchau mewn sgiliau ar draws y Cyngor, a'u trin, gan gynnwys y rhai cysylltiedig â Strategaeth Ddigidol y Cyngor.
- Sicrhau y parheir i gefnogi gweithwyr i ddatblygu'r ystod eang o sgiliau sydd eu hangen i gefnogi ffyrdd newydd o weithio, trwy fentrau lleol a rhanbarthol.
- Parhau i nodi cyfleoedd i gydweithio ar draws y rhanbarth er mwyn datblygu gallu mewn gwasanaethau arbenigol/swyddi hanfodol i gynyddu gwytnwch y gwasanaeth mewn meysydd gwasanaeth allweddol a chynnal lefelau priodolo gyflwyno gwasanaethau at y tymor hir.

Sut byddwn ni'n mesur ein cynnydd?



Byddwn yn adolygu ein cynnydd bob chwarter trwy adrodd i'n Cynghorwyr etholedig a'r cyhoedd am welliannau a wnaed a meysydd lle mae angen i ni wneud yn well. Fe wnawn hyn trwy adrodd i Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Craffu ar ffurf adroddiadau

perfformiad y gellir eu gweld ar ein [gwefan](#).

Yn ychwanegol at gyhoeddi ein Hamcanion Gwella rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd Hydref sydd yn adolygu ein perfformiad yng nghyswllt ein Hamcanion Gwella o'r flwyddyn flaenorol, a adwaenir fel y Cynllun Gwella Rhan 2. Byddwn yn adrodd am ein perfformiad cyffredinol yn erbyn Amcanion Gwella 2019-2020 ym mis Hydref 2020.

Sut i ddod yn rhan

Gallwch ddod yn rhan trwy ymuno â Barn y Fro (ein Panel Dinasyddion) a chymryd rhan yn ein gweithgareddau ymgynghori. I ymuno, y cyfan mae'n rhaid i chi wneud yw llenwi'r [ffurflen ar-lein](#) fer hon.

Mae Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd a gallwch ddod yn rhan hefyd trwy lenwi [Ffurflen Ystyried Adolygu](#). Gallwch hefyd gofrestru i siarad ar [wefan](#) y Cyngor



I wneud sylwadau am y Cynllun Gwella neu i gynnig Amcanion Gwella newydd, ysgrifennwch atom yn: Perfformiad a Datblygu, Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63

4RU. Siaradwch â ni ar 01446 700101 neu e-bostiwch ni ar improvements@valeofglamorgan.gov.uk